

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i  
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: System addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'System addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig'.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, byddaf yn ymchwilio i gwynion sy'n cael eu gwneud gan aelodau o'r cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder oherwydd achos o gamweinyddu neu fethiant gan gorff a ddaw o dan fy awdurdodaeth, sef yr holl sefydliadau hynny sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru, mae'r rhain yn cynnwys

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (yn cynnwys meddygon teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai); a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r cyrff y mae'n eu noddi.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am wasanaethau gofal lliniarol a gofal cymdeithasol sydd wedi'u hariannu neu eu trefnu'n breifat.

Ar ben hynny mae gennyf awdurdodaeth i edrych ar gyrff penodol yn y sector addysg fel paneli derbyn neu wahardd, yn ogystal ag Estyn a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae fy ymateb i'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'r cynnig ar gyfer sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru, a'r agweddau o ran cwynion.

Rwy'n croesawu sefydlu un corff cyllido ar gyfer y sector Addysg Uwch. Fodd bynnag, mae CCAUC o dan fy awdurdodaeth, felly os caiff corff newydd ei greu i ysgwyddo holl swyddogaethau CCAUC, byddai angen ystyried a fyddai gen i dal y pwerau i ystyried cwynion ynghylch rhai o'i swyddogaethau neu'r cyfan.

Ar hyn o bryd mae'r system cwynion ar gyfer dysgwyr yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn annheg gan nad oes ffordd o fynd â chwyn ymlaen y tu hwnt i'r corff maen nhw'n cwyno amdano. Rwy'n cytuno bod angen cael proses mewn lle er mwyn gallu ystyried cwynion yn annibynnol. Rwy'n credu y dylai hyn naill ai ddod o dan gylch gwaith fy swyddfa, neu Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch.

